

Cyllid / Finance

Gwasanaeth Pensiynau / Pensions Service

Rheolwr/ Manager - Mr Meirion Jones

Gofynnwch am/Ask for: Meirion Jones

☎ (01286) 679643

✉ MeirionJones2@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: **MJ/**

Eich Cyf / Your Ref:

24/02/2020

Annwyl XXXXXXX

RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

O dan reoliadau'r Llywodraeth rydych wedi eich cynnwys i'r Cynllun Bensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) pan ddechreuwyd eich swydd gyda ENW CYFLOGWR. ar y DYDDIAD YMUNO. Gyda phleser amgaeaf Pecyn Cychwynnwr Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Eich Hysbysiad Statudol** – Hwn sy'n profi eich aelodaeth yn y Cynllun Pensiwn - Cadwch yn saff os gwelwch yn dda.
- **Canllaw Byr i'r Cynllun** - Mae'r canllaw yn drosolwg o'r Cynllun Pensiwn ynghyd a'i fuddion.
- **Ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth** - Gellir cwblhau'r ffurflen er mwyn enwebu unigolion neu sefydliadau i dderbyn unrhyw grant marwolaeth sy'n ddaliadwy ar eich marwolaeth. Gweler y ffurflen ar gyfer y telerau ac amodau llawn.
- **Ffurflen cychwynnwr/Ffurflen cais trosglwyddo** - Mae'n hanfodol bod y ffurflen yn cael ei gwblhau a'i ddychwelyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd ynghyd â chopiau o'r dogfennau perthnasol cyn gynted â phosib. Rhestrwch eich holl hawliau pensiwn blaenorol yn yr adran berthnasol o'r ffurflen, hyd yn oed os nad ydych yn dymuno eu trosglwyddo.

Trosglwyddo Buddion Blaenorol

Wrth ymuno â'r Cynllun Pensiwn, mae gennych 12 mis i drosglwyddo unrhyw hawliau pensiwn blaenorol. Gellir y CPLIL dderbyn trosglwyddiadau o gynlluniau CPLIL blaenorol, cynlluniau cyflogwr blaenorol, cynlluniau hunangyflogedig, polisiau 'prynu allan', cynlluniau pensiwn personol, pensiwn hapddaliwr a threfniadau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC). Galluogir y ffurflen yma i ni gysylltu gyda gweinyddwyr eich cynllun pensiwn blaenorol yn syth.

Ni cheir hawliau pensiwn eu trosglwyddo yn awtomatig. Byddwch yn derbyn amcangyfrif cyn penderfynu os hoffech drosglwyddo eich buddion, ac argymhellir i chi gymryd cyngor ariannol annibynnol cyn trosglwyddo.

Swyddfa'r Cyngor

Caernarfon

Gwynedd. LL55 1SH

01286 672255

www.CronfaBensiwnGwynedd.org.uk

www.GwyneddPensionFund.org.uk

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Safle We Hunan Wasanaeth Aelodau

Mae gan Gronfa Pensiwn Gwynedd wefan sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y Cynllun, gan gynnwys gwasanaeth Hunan Wasanaeth Aelodau (HWA). Mae'r system HWA yn borth diogel sy'n eich galluogi i weld gwybodaeth bersonol ac ariannol am eich pensiwn. Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu:

- Gweld a diweddarau eich manylion personol a newid cyfeiriad.
- Cael amcangyfrif o'ch buddion pensiwn.
- Cyfrifo'r swm o lwmp swm ychwanegol y gallwch ei gymryd wrth ymddeol.
- Gweld hanes eich gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drosglwyddo i mewn.
- Gweld a diweddarau manylion y buddiolwyr yr ydych wedi enwebu.
- Gweld eich datganiadau blynyddol.
- Anfon negeseuon diogel i Gronfa Pensiwn Gwynedd.

Ymwelwch â'r rhan 'Hunan Wasanaeth Aelodau' ar ein gwefan: www.cronfabensiwnngwynedd.cymru i wneud cais am allwedd actifadu. Bydd eich cais yn cael ei e-bostio i Gronfa Pensiwn Gwynedd a byddwch yn cael allwedd actifadu. Os yw eich manylion cyswllt presennol yn cynnwys cyfeiriad e-bost, bydd dolen i gwblhau eich cofrestriad yn cael ei e-bostio i'r cyfeiriad hwn, fel arall, bydd eich allwedd actifadu yn cael ei anfon i'ch cyfeiriad cartref presennol o fewn 3-5 diwrnod gwaith. Nodwch y bydd eich allwedd actifadu dros dro ddim ond yn gweithio am 30 diwrnod ar ôl iddo gael ei gynhyrchu, felly mae'n bwysig i chi gwblhau eich cofrestriad cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich allwedd actifadu.

Datganiadau Buddion Blynyddol

Bydd Datganiad Buddion Blynyddol yn amlinellu gwerth y buddion rydych wedi ei gronni yn y Cynllun Pensiwn yn cael ei osod er eich cofnod Hunan Wasanaeth ar ddiwedd bob blwyddyn treth. Os hoffwch dderbyn copïau bapur o'r datganiad yna cysylltwch â ni drwy'r post neu e-bost i wneud cais.

Yn y dyfodol, efallai bydd y datganiad hwn yn cynnwys rhagolwg Pensiwn Y Wlad. Er mwyn eich darparu gyda rhagolwg Pensiwn Y Wlad rydym angen cyfnewid eich manylion personol gyda'r Aran Gwaith a Phensiynau (DWP). Os nad ydych yn dymuno rhannu eich manylion personol gyda'r DWP yna ticiwch y blwch perthnasol ar y ffurflen cychwynnwr neu cysylltwch â ni yn ysgrifenedig - fel arall byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn fodlon i ni rannu eich manylion personol er mwyn darparu rhagolwg Pensiwn Y Wlad ar eich datganiad buddion blynyddol.

Nodiadau Cyffredinol

Gwiriwch eich slip cyflog pob mis i sicrhau bod cyfraniadau pensiwn yn cael ei ddidynnu.

Gallwch adael y CPLIL ar unrhyw adeg drwy wneud cais am ffurflen optio-allan gan yr adran bensiynau, ond dim ond o fewn y 2 flynedd gyntaf o ymuno bydd ad-daliad yn cael ei dalu. Os ydych yn optio-allan gallwch optio yn ôl i mewn i'r cynllun ar unrhyw adeg ar yr amod eich bod o dan oed 75. Argymhellir i chi gymryd cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud penderfyniad i optio allan o'r CPLIL. Dewis arall i optio allan yw'r opsiwn 50/50. O dan yr opsiwn hwn byddwch yn talu hanner eich cyfraniadau arferol ac yn cronni hanner y pensiwn arferol - tra'n parhau i dderbyn yswiriant bywyd ac yswiriant salwch llawn. Cysylltwch â ni os hoffech ffurflen Opsiwn 50/50.

Cyngor Gwynedd yw gweinyddwr Cronfa Pensiwn Gwynedd a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y gronfa.

Peidiwch ag oedi i gysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen mwy o wybodaeth. Gallwch gysylltu â ni ar ☎ (01286) 679982 neu ✉ pensiynau@gwynedd.llyw.cymru.

Dear XXXXX

LOCAL GOVERNMENT PENSION SCHEME REGULATIONS

Under Government regulations you have been brought into the Local Government Pension Scheme (LGPS) upon the commencement of your employment with EMPLOYER, on DATE OF START. I have the pleasure in enclosing the Gwynedd Pension Fund starter pack. This pack includes:

- **Your Statutory Notification** – This is your proof of Pension Scheme membership – Please keep it safe.
- **A Short Scheme Guide** – This guide gives you an overview of the Pension Scheme and its benefits.
- **Starter Form/Transfer Request Form** – It is essential that this form is completed and copies of all relevant documents returned to Gwynedd Pension Fund as soon as possible. You should list all your previous pension rights in the relevant section of this form, even if you do not wish to investigate transferring them.
- **A Death Grant Expression of Wish Form** – This form may be completed in order to nominate individuals or institutions to receive any death grant payable upon your death. Please see the form for full terms and conditions.

Transfer of Previous Pension Rights

On joining the Pension Scheme you have 12 months in which to transfer any previous pension rights. The LGPS is able to accept transfers from previous LGPS funds, previous employer's pension schemes, self-employed pension plans, 'buy-out' policies, personal pension plans, stakeholder pension schemes and Additional Voluntary Contribution (AVC) arrangements. This form will allow us to communicate directly with your previous pension providers.

Pension rights will not be transferred automatically. You will receive a quotation before deciding whether you wish to transfer your benefits, and it is recommended that you take appropriate independent financial advice before transferring.

Member Self Service Website

The Gwynedd Pension Fund has a website, which gives general information on the Scheme and a Member Self Service (MSS) section. MSS is a secure portal that enables you to view personal and financial information about your pension. Once registered you will be able to:

- View and update your personal details and changes of address.
- Obtain an estimate of the possible pension you will receive on retirement.
- Calculate the amount of additional lump sum you can take on retirement.
- View your service history, including any service that have been transferred.
- View and update your nominated beneficiaries.
- View your Annual Benefit Statements.
- Send secure messages to Gwynedd Pension Fund.

Please visit the 'Member Self Service' section of our website: www.gwyneddpensionfund.wales to request your activation key. Your request will be emailed to Gwynedd Pension Fund and you will be issued an activation key. If your current contact details include an e-mail address, a link to complete your registration will be e-mailed to this address, otherwise your activation key will be sent to your current postal address within 3 - 5 working days. Please note that your activation key will expire within 30 days of it being generated, therefore it is important for you to complete your registration as soon as you receive your activation key.

Annual Benefit Statements

Your Annual Benefit Statement, showing you the benefits you have accrued in the Pension Scheme, will be uploaded on the Pension On-Line website at the end of every tax year. Please send us a written request, by post or email, If you would prefer to receive paper copies of your statement.

In the future this statement may include a State Pension Forecast. In order to provide the state pension forecast we are required to exchange personal details securely with the Department of Work and Pensions (DWP). If you do not wish us to share your personal details with the DWP please tick the relevant box on the starter form or contact us in writing – If we do not hear from you we will assume that you are willing for us to share your personal details for the purpose of receiving a State Pension forecast on your annual benefit statement.

General Notes

Please check your payslip each month to ensure pension contributions are being deducted.

You can leave the LGPS at any time by requesting an opt-out form from the Pension Section, although you will only be entitled to a refund of contributions if you leave the scheme within 2 years of joining. If you opt-out, you can opt back into the scheme at any time, provided that you are under age 75. You may wish to obtain independent financial advice before you make a decision to opt-out of the LGPS. An alternative to opting out is the 50/50 Option. Under this option you would pay half contributions and build up half the normal pension – whilst still receiving full life assurance and ill health cover. A 50/50 Option form is available on request.

Gwynedd Council is the administering authority of the Gwynedd Pension Fund and we use your personal data in accordance with Data Protection legislation to provide you with pension administration service. For more information about how we use your data, who we share it with and what rights you have in relation to your information, please visit the Fund's website.

Please do not hesitate to contact Gwynedd Pension Fund if you have any questions or require more information. We can be contacted on ☎ 01286 679982 or ✉ pensions@gwynedd.llyw.cymru.

Yn gywir / Yours sincerely

Meirion Jones
Rheolwr Pensiynau / Pensions Manager

CRONFA PENSIWN CYNGOR GWYNEDD
Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
HYSBYSIAD STATUDOL I'R GWEITHIWR

Yn unol a'r Rheoliadau uchod, FE'CH HYSBYSWYD TRWY HYN, wedi ystyried telerau eich penodiad a manylion eich gwasanaeth a gyflwynwyd gennych, penderfynwyd eich bod yn weithiwr pensiynadwy sy'n cyfrannu i Gronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd a rhoddir isod manylion eich gwasanaeth sy'n cyfrif yn ogystal a gwybodaeth berthnasol arall.

Os ydych yn anfodlon a'r penderfyniad isod neu'n anghytuno a'r manylion, cysylltwch a'r Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau i drafod y mater.

Os ydych yn dal yn anhapus a'r eglurhad, mae gennych hawl apelio'n ffurfiol o dan drefn apelio ddau-ran.

Mae'n rhaid cyflwyno'r cais apel gwreiddiol o fewn chwe mis o ddyddiad yr hysbyseb sy'n cynnwys y penderfyniad. Mae'n rhaid gosod allan yr anghydfod, gan gynnwys datganiad ei natur sy'n rhoi digon o fanylion i ddangos paham yr ydych yn teimlo eich bod wedi cael cam.

Mae'r rhan gyntaf yn adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol gan yr awdurdod neu gorff a wnaeth y penderfyniad. Felly, dylid cyfeirio'r cais i'r 'Person Penodedig' yng nghyfeiriad eich cyflogwr neu gyn-gyflogwr os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad y cyflogwr, neu i'r 'Person Penodedig', Yr Adain Bensiynau, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH, os yr ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu.

Os ydych yn anfodlon a'r penderfyniad y 'Person Penodedig' o dan rhan un mae gennych hawl apelio o dan rhan dau o'r drefn i'r Awdurdod Gweinyddu. O dan yr ail ran mae Cyngor Gwynedd, fel gweinyddwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd, wedi dewis enwebu panel o swyddogion i benderfynu achosion, gyda'r swyddog penodol yn cael ei ddewis gan Bennaeth Gwasanaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd. Dylid felly cyfeirio apeliadau o dan rhan dau i Bennaeth Gwasanaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH.

Mae OPAS (yr 'Occupational Pensions Advisory Service') ar gael i gynorthwyo aelodau mewn unrhyw ran o'r drefn anghydfod. Eu cyfeiriad yw: OPAS, 11 Ffordd Belgrave, LLUNDAIN, SW1V 1RB.

Dros ac ar ran yr Awdurdod Cyflogi a nodir isod a Chyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Gweinyddu

Dafydd L. Edwards
Pennaeth Cyllid

GWYNEDD COUNCIL PENSION FUND
Local Government Pension Scheme Regulations
STATUTORY NOTIFICATION TO EMPLOYEE

In accordance with the above regulations, YOU ARE HEREBY NOTIFIED that after consideration of your terms of appointment and of service details submitted by you it has been decided that you are a pensionable employee contributing to the Gwynedd Council Pension Fund and details of your reckonable service and other relevant information is given below.

If you are not satisfied with the information below please contact the Pensions Operations Manager to discuss the matter. If you are still not satisfied with the explanation you have a formal right of appeal under the two-stage appeals procedure.

The original appeal application must be submitted within six months of the date of the notification of the decision, and must set out the disagreement, including a statement as to its nature with sufficient details to show why you feel aggrieved.

The first stage is a formal review of the initial decision by the authority or body that took the decision. The application should therefore be addressed to the 'Specified Person' at your employer or former employer's address if you are appealing against an employer decision, or to the 'Specified Person', The Pension Section, Gwynedd Council, Council Offices, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH if you are appealing against a decision made by the Administering Authority.

If you are not satisfied with the decision of the 'Specified Person' under stage one you have the right of appeal under stage two of the procedure to the Administering Authority. Under the second stage Gwynedd Council, as administrators of the Gwynedd Pension Fund, have nominated a panel of officers to determine such cases with the relevant officer being chosen by the Head of Administration and Public Protection.

Appeals under the second stage should therefore be addressed to the Head of Administration and Public Protection, Gwynedd Council, Council Offices, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH.

OPAS (the Occupational Pensions Advisory Service) is available to assist members at any stage of the dispute procedure, their address is: OPAS, 11 Belgrave Road, London, SW1V 1RB.

For and on behalf of the Employing Authority stated below and of the Gwynedd Council as Administering Authority

Dafydd L. Edwards
Head of Finance

Enw		Name
Rhif Yswiriant Gwladol		National Insurance Number
Cyflogwr		Employer
Dyddiad Ymuno a'r Cynllun		Date Joined the Scheme
Dyddiad Geni		Date of Birth
Teitl Swydd		Post Title
Cyfradd Cyfraniadau		Contribution Rate
Dyddiad Cyhoeddi		Issue Date



CRONFEYDD PENSIWN CYMRU



ALL WALES PENSION FUNDS

Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

Eich Manylion Personol

Enw:	Dyddiad Geni:
Rhif Yswiriant Gwladol:	
Cyfeiriad Cartref:	
	Cod Post:

Manylion Personol – Buddiolwr 1

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Manylion Personol – Buddiolwr 2

Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Manylion Personol – Buddiolwr 3


Cyfran

Enw:		%
Dyddiad Geni:	Perthynas:	
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	

Datganiad

Rydw i wedi darllen y nodiadau drosodd. Gofynnaf i Cyngor Gwynedd (yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd) ddefnyddio disgresiwn llwyr wrth ystyried talu unrhyw lwmp swm budd marwolaeth sy'n ddyledus dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion ac/neu sefydliad(au) a enwir uchod ac (os yn fwy nag un) eu rhannu yn unol â'm mynegiant dymuniad.

Llofnodwyd:	Dyddiad:
-------------	----------



Manylion Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

(Ar gyfer aelodau sy'n cyfrannu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008)

DARLLENWCH Y NODIADAU CANLYNOL YN OFALUS CYN CWBLHAU OS GWELWCH YN DDA

- Mae grant marwolaeth yn daladwy yn syth ar eich marwolaeth:
 - pan ydych yn aelod cyfredol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL); neu
 - os oes gennych fuddion gohiriedig yn Gronfa Bensiwn Gwynedd; neu
 - os ydych yn marw o fewn 10 mlynedd i dderbyn y pensiwn oddi wrth Cronfa Bensiwn Gwynedd ac eich bod o dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad eich marwolaeth.
- Y lefel o grant marwolaeth sydd yn daladwy yw:
 - 3 x cyflog pensiynadwy blyneddol mewn perthynas ag aelod cyfredol o'r CPLIL;
 - 5 x pensiwn cronedig plws cynyddiad pensiynau cronol mewn perthynas ag aelod gohiriedig;
 - 10 x pensiwn blyneddol llai unrhyw daliadau sydd eisoes wedi eu gwneud mewn perthynas ag aelod sy'n bensiynwr o dan 75 mlwydd oed.
- Os ydych yn aelod gweithredol o'r CPLIL gyda chyfnod o aelodaeth ohiriedig CPLIL cynharach, bydd y grant marwolaeth sy'n daladwy yn y mwyaf o naill ai'r grant marwolaeth mewn perthynas â'ch cyfnod gweithredol o aelodaeth, neu'r grant marwolaeth mewn perthynas â'ch budd-dal gohiriedig, **pa un bynnag yw'r mwyaf**.
- Fel aelod cyfredol, os ydych yn gweithio yn rhan amser, fe gyfrifir eich grant marwolaeth yn unol â'ch **gwir gyflog pensiynadwy**.
- Gallwch fynegi dymuniad i gynnig un neu ragor o unigolion, neu sefydliad, i dderbyn y grant marwolaeth sy'n daladwy ar achlysur eich marwolaeth. Yng nghyswllt absenoldeb Ffurflen Mynegi Dymuniad, bydd y taliad yn cael ei wneud i'ch cynrychiolwr personol h.y. eich Ystâd.
- **Os byddwch yn dymuno enwebu 'Plentyn Dan Oed', sylwer y bydd unrhyw daliad mewn perthynas â'r enwebai hwn yn cael ei wneud i gronfa ymddiriedolaeth.**
- Y fantais o fynegi Dymuniad yw y bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu yn gyflym, heb orfod disgwyl sawl wythnos o bosib i'ch Ystâd gael ei gytuno. Mantais arall yw na fydd eich taliad yn cael ei gyfrif fel rhan o'ch Ystâd, gan osgoi unrhyw gyfrifoldeb Treth Etifeddiaeth.
- Fe'ch cynghorir i gadw copi o'ch ffurflen Mynegi Dymuniad, ynghyd â'r nodiadau hyn a'u cadw yn ofalus ar gyfer eich cofnodion. Tra bod yn rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol o dan Gyfraith Pensiwn, gadw'r hawl i ddiystyru unrhyw fynegiant o ddymuniad, pwrpas y ffurflen hon yw eich cynorthwyo i wneud cynlluniau ariannol priodol rhag ofn marwolaeth gynnar.
- Gallwch ddiwygio eich mynegiant dymuniad(au) ar unrhyw adeg trwy gwblhau ffurflen arall, fydd yn diddymu unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol. Os ydych yn dymuno diwygio unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn yn y cyfeiriad isod os gwelwch yn dda.
- Ar gyfer taliad Grant Marwolaeth yn UNIG y bwriedir y ffurflen hon ac nid oes iddi unrhyw berthnasedd i daliad pensiwn y sawl sy'n eich goroesi ar achlysur eich marwolaeth.
- Nodwch os gwelwch yn dda NAD yw Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi rhwymo yn gyfreithiol i'r ffurflen hon, oherwydd er mwyn i'r manteision treth fod yn berthnasol, mae'n rhaid i'r Gronfa gadw disgrisiwn llawn yng nghyswllt dyraniad eich taliad grant marwolaeth.
- **Os oes mwy nag un buddiolwr sicrhewch fod y cyfansymiau canradd yn 100% os gwelwch yn dda.**
- Ni allwch ddatgan pwy fyddai'n olynydd pe bai eich buddiolwr enwebedig yn marw o'ch blaen. Yn yr achos yma dylech gwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth newydd.
- Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu os ydych angen rhagor o fanylion cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Adain Bensiynau, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH



CRONFEYDD PENSIWN CYMRU

ALL WALES PENSION FUNDS

Death Grant Expression of Wish Details

Your Personal Details

Name:	Date of Birth:
National Insurance No:	
Home Address:	
	Post Code:

Personal Details – Beneficiary 1

Proportion

Name:		%
Date of Birth:	Relationship:	
Address:		
	Post Code:	

Personal Details – Beneficiary 2

Proportion

Name:		%
Date of Birth:	Relationship:	
Address:		
	Post Code:	

Personal Details – Beneficiary 3

Proportion

Name:		%
Date of Birth:	Relationship:	
Address:		
	Post Code:	

Declaration

I have read the notes overleaf. I request that Gwynedd Council (the Administering Authority for the Gwynedd Pension Fund) in the exercise of its absolute discretion, consider paying any lump sum death benefit due under the Local Government Pension Scheme to the above individual(s) and/or institution(s) and (if more than one) split according to my expression of wish.

Signed:	Date:
---------	-------




Death Grant Expression of Wish Details

(For members contributing on or after 1 April 2008)

Please read the following notes carefully before completion.

- A death grant is automatically payable:
 - if you die whilst an active member of the Local Government Pension Scheme (LGPS)
 - if you have a deferred benefit in the Gwynedd Pension Fund
 - if you die within 10 years of receiving your pension from the Gwynedd Pension Fund and you are under age 75 at the date of death.
- The level of death grant payable is:
 - 3 x annual pensionable pay in respect of an active member of the LGPS
 - 5 x accrued pension plus accumulative pensions increase in respect of a deferred member
 - 10 x annual pension less any payments already made in respect of a pensioner member under the age of 75.
- If you are an active LGPS member with a separate deferred benefit from an earlier period of LGPS membership, the death grant payable will be the greater of either the death grant in respect of your active period of membership, or the death grant in respect of your deferred benefit, **whichever is greatest.**
- As an active member, if you work part time, your death grant will be calculated in accordance to your **actual pensionable pay.**
- You can express a wish to propose one or more individuals, or an institution, to receive the death grant payable in the event of your death. In the absence of a valid Expression of Wish Form, the payment will be made to your personal representative i.e. your Estate.
- **If you wish to nominate a 'Minor', please note that any payment in respect of this nominee will be made to a trust fund.**
- The advantage of making an Expression of Wish is that the death grant will be paid quickly, without having to wait possibly several weeks for your Estate to be settled. Another advantage is that the payment will not form part of your Estate, therefore avoiding any liability to Inheritance Tax.
- You are advised to retain a copy of the Expression of Wish form, together with these notes, and keep in a safe place for your records. Whilst the Administering Authority must, under Pensions Law, retain the right to override any expression of wish, the purpose of this form is to help you make appropriate financial plans in case of premature death.
- You can revise your expression of wish at any time by completing another form, which will revoke any previous expression of wish. If you do wish to amend any previous expression of wish, please contact the Pension Fund at the address given below.
- This form is **ONLY** applicable for the payment of a Death Grant, and has no relevance to the payment of a survivor's pension in the event of your death.
- Please note that the Gwynedd Pension Fund is **NOT** legally bound by this form, because in order for the tax advantages to apply, it must retain absolute discretion with regard the allocation of your death grant payment.
- **If there is more than one proposed beneficiary please ensure that the percentage totals 100%.**
- You cannot state who the next in line would be if the original nominated beneficiary dies before you. In this case, you should complete a new Death Grant Expression of Wish form.
- If you have any queries or need further details, please contact the:

Pensions Section, Gwynedd Council, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH



Cronfa Bensiwn Gwynedd - Ffurflen Gychwynnol

Cwblhewch y ffurflen hon a'i dychwelyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd

CT108

Defnyddiwch inc du

Rhan 1 – Manylion y gweithiwr

Enw Llawn:

Teitl:

Dyddiad Geni:

Rhif Tâl:

Cyfeiriad:

Rhif YG:

Cyflogwr:

Rhif Ffôn:

Teitl Swydd:

Rhif Ffôn
Symudol:

E-bost:

Dewis iaith:

☐

Cymraeg

☐

Saesneg

Os nad oes iaith yn cael ei ddewis, bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn Gymraeg

Rhan 2 – Statws Partneriaeth

Ticiwch y blwch perthnasol ac amgáu **copïau** o unrhyw ddogfennau a ofynnir amdanynt isod:

☐ **Yn Sengl:** Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni.

☐ **Wedi Ysgaru:** Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni a chopi o'r archddyfarniad absoliwt.

☐ **Yn Briod:** Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni, tystysgrif priodas a thystysgrif geni eich priod.

☐ **Ymwahaniaeth Farnwrol:** Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni a chopi o'r gorchymyn ymwahaniaeth farnwrol ac os yn berthnasol y gorchymyn cynnal.

☐ **Mewn Partneriaeth Sifil:** Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni, chopi o'ch datganiad sifil a chopi o dystysgrif geni eich partner.

☐ **Gweddwr:** Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni a chopi o dystysgrif marwolaeth eich diweddar briod.

☐ **Cyd-fyw Gyda Phartner:** Fe anfonwn ffurflen enwebu partneriaeth cyd-fyw i chi. Mae gofyn i chi anfon copi o'ch tystysgrif geni a chopi o dystysgrif geni eich partner.

Rhan 3 – Datganiad Buddion Blynnyddol a Buddion Pensiwn y Wladwriaeth

Bob blwyddyn bydd Datganiad Buddion Blynnyddol yn cael ei ddarparu. Rhagwelir y bydd y datganiad hwn yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am eich Pensiwn y Wladwriaeth. Er mwyn darparu'r wybodaeth hon bydd angen i ni roi eich manylion i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) bob blwyddyn, oni bai eich bod yn dweud wrthym fel arall. Os nad ydych am i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn:

☐

Rhan 4 - Datganiad

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth a ddangosir uchod yn gywir:

Llofnod:

Dyddiad:


Beth i'w wneud nesaf?

Dychwelwch yr holl ffurflenni yn eich pecyn cychwynnol i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn:

Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Os nad ydych yn dymuno bod yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cysylltwch â ni ar ☎ 01286 679982 neu

✉ pens@gwynedd.llyw.cymru i ofyn am ffurflen optio allan.



Cronfa Bensiwn Gwynedd – Ffurflen Awdurdodi Trosglwyddiad

Gwynedd Pension Fund – Transfer Authorisation Form

Cwblhewch y ffurflen hon a'i dychwelyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd
Please complete this form and return it to Gwynedd Pension Fund

Trosglwyddo hawliau pensiwn

Os oes gennych hawliau pensiwn blaenorol, byddwch yn gallu trosglwyddo hawliau hyn i mewn i'r Gronfa Bensiwn ar yr amod y gwneir cais o fewn **12 mis** o ymuno â'r cynllun.

Rhowch fanylion yr holl hawliau pensiwn blaenorol isod. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn rhestru'r holl hawliau pensiwn y sector cyhoeddus yn yr adran hon, hyd yn oed os nad ydych yn dymuno i ymchwilio i drosglwyddo.

Transfer of pension rights

If you have previous pension rights, you are able to transfer these rights into the Pension Fund provided a request is made within **12 months** of joining the scheme.

Please give details of all previous pension rights below. It is particularly important that you list all public sector pension rights in this section, even if you do not wish to investigate a transfer.

Enw a Chyfeiriad y darparwr pensiwn blaenorol / Name and Address of previous pension provider	Rhif Cyfeirnod Pensiwn neu Rhif Bolisi / Pension Reference Number or Policy Number	Cyfnod yn y cynllun / Period in the scheme		Ymchwilio i drosglwyddiad?/ Investigate a transfer? Ia/Yes / Na/No
		0 / From:	1 / To:	

A oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol yn eich cynlluniau pensiwn blaenorol? Were you paying extra pension contributions with your previous pension schemes? ☐ Oeddwn / Yes ☐ Nac oeddwn / No

Datganiad

Rwyf drwy hyn yn rhoi fy awdurdod ysgrifenedig ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i gael gwybodaeth am fy mhensiwn gan y darparwr pensiwn a restrir uchod.

Rwy'n deall ni fydd unrhyw drosglwyddiad yn digwydd hyd nes fy mod wedi derbyn dyfynbris a chwblhau ffurflenni rhyddhau trosglwyddo perthnasol gan fy narpwrwr pensiwn blaenorol. Rwyf hefyd yn deall bod yn rhaid i mi wneud cais i drosglwyddo buddion pensiwn blaenorol o fewn 12 mis ar ôl ymuno â'r Cynllun Pensiwn. Bydd ceisiadau yn y dyfodol yn cael ei wrthod.

Declaration

I hereby give my written authority for Gwynedd Pension Fund to obtain information regarding my pension from the pension providers listed above.

I understand that no transfer will take place until I have received a quotation and completed the relevant transfer discharge forms from my previous pension provider. I also understand that I must make a request to transfer previous pension benefits within 12 months of joining the Pension Scheme. Future requests will be refused.

Enw / Name:


Cyfeiriad /
Address:

Rhif YG /
NI Number:

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Llofnod /
Signature:

Dyddiad /
Date:



Gwynedd Pension Fund - Starter Form

Please complete this form and return it to Gwynedd Pension Fund

CT108

Please use **black ink**

Section 1 – Employee Details

Full Name:

Title:

Date of Birth:

Pay No:

Address:

NI No:

Tel No:

Employer:

Mobile:

Job Title:

E-mail:

Language preference:

☐

Welsh

☐

English

If no language preference is chosen, correspondence will be sent in Welsh

Section 2 – Marital Status

Please tick the appropriate box and forward **copies** of any documents requested below:

☐

Single: Please attach a copy of your birth certificate.

☐

Divorced: Please attach copies of your birth certificate and the decree absolute.

☐

Married: Please attach copies of your birth certificate, marriage certificate and your spouse's birth certificate.

☐

Judicially Separated: Please attach copies of your birth certificate and the judicial separation and where appropriate, maintenance order.

☐

In a Civil Partnership: Please attach copies of your birth certificate, your civil declaration and your partner's birth certificate.

☐

Widow / Widower: Please attach copies of your birth certificate and your spouse's death certificate.

☐

Co-Habiting with Partner: Please attach copies of your birth certificate and your partner's birth certificate. We will send you a co-habiting partner's declaration form.

Section 3 – Annual Benefit Statement and State Pension benefits

Every year an Annual Benefit Statement will be provided. It is envisaged that in the future this statement will include information about your State Pension. In order to provide this information we need to provide your details to the Department of Work and Pension (DWP) each year, unless you tell us otherwise. If you do not want us to do this, please tick this box: ☐

Section 4 - Declaration

I declare that the information shown above is true:

Signature:

Date:


What to do next?

Please return all forms in your starter pack to Gwynedd Pension Fund at:

Gwynedd Pension Fund, Gwynedd Council, Council, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

If you do not wish to be in the Local Government Pension Scheme, please contact us on ☎ 01286 679982 or

✉ pens@gwynedd.llyw.cymru to request an opt-out form.



Cronfa Bensiwn Gwynedd – Ffurflen Awdurdodi Trosglwyddiad Gwynedd Pension Fund – Transfer Authorisation Form

Cwblhewch y ffurflen hon a'i dychwelyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd
Please complete this form and return it to Gwynedd Pension Fund

Trosglwyddo hawliau pensiwn

Os oes gennych hawliau pensiwn blaenorol, byddwch yn gallu trosglwyddo hawliau hyn i mewn i'r Gronfa Bensiwn ar yr amod y gwneir cais o fewn **12 mis** o ymuno â'r cynllun.

Rhowch fanylion yr holl hawliau pensiwn blaenorol isod. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn rhestru'r holl hawliau pensiwn y sector cyhoeddus yn yr adran hon, hyd yn oed os nad ydych yn dymuno i ymchwilio i drosglwyddo.

Transfer of pension rights

If you have previous pension rights, you are able to transfer these rights into the Pension Fund provided a request is made within **12 months** of joining the scheme.

Please give details of all previous pension rights below. It is particularly important that you list all public sector pension rights in this section, even if you do not wish to investigate a transfer.

Enw a Chyfeiriad y darparwr pensiwn blaenorol / Name and Address of previous pension provider	Rhif Cyfeirnod Pensiwn neu Rhif Bolisi / Pension Reference Number or Policy Number	Cyfnod yn y cynllun / Period in the scheme		Ymchwilio i drosglwyddiad?/ Investigate a transfer? Ia/Yes / Na/No
		0 / From:	1 / To:	

A oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol yn eich cynlluniau pensiwn blaenorol? Were you paying extra pension contributions with your previous pension schemes? ☐ Oeddwn / Yes ☐ Nac oeddwn / No

Datganiad

Rwyf drwy hyn yn rhoi fy awdurdod ysgrifenedig ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i gael gwybodaeth am fy pensiwn gan y darparwr pensiwn a restrir uchod.

Rwy'n deall ni fydd unrhyw drosglwyddiad yn digwydd hyd nes fy mod wedi derbyn dyfynbris ac chwblhau ffurflenni rhyddhau trosglwyddo perthnasol gan fy darparwr pensiwn blaenorol. Rwyf hefyd yn deall bod yn rhaid i mi wneud cais i drosglwyddo buddion pensiwn blaenorol o fewn 12 mis ar ôl ymuno â'r Cynllun Pensiwn. Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl 12 mis.

Declaration

I hereby give my written authority for Gwynedd Pension Fund to obtain information regarding my pension from the pension providers listed above.

I understand that no transfer will take place until I have received a quotation and completed the relevant transfer discharge forms from my previous pension provider. I also understand that I must make a request to transfer previous pension benefits within 12 months of joining the Pension Scheme. Requests will not be accepted after 12 months.

Enw / Name:

Cyfeiriad /
Address:

Rhif YG /
NI Number:

Llofnod /
Signature:

Dyddiad /
Date: